

## Gwthio ffiniau arlunio

### Diwrnod o hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer athrawon yng Nghanolfan Grefft Rhuthun mewn cydweithrediad ag EDAU – Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg, Gogledd Cymru

#### DPP ar gyfer Athrawon Ysgolion Uwchradd – Testun Celf a Dylunio

Dyddiad: Dydd Iau 9fed o Chwefror

Amser: 9am – 3.45pm

Lleoliad: Canolfan Grefft Rhuthun

Cost: **AM DDIM**, Lleoedd cyfyngedig ar gael (12 ar y mwyaf), dylech fwcio ymlaen llaw i osgoi siom.

Cynhwysir cinio ysgafn a lluniaeth ysgafn

**\* Fe wnaiff Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Gogledd Cymru ofalu am gost rhyddhau athro o'r ysgol fel bod yr ysgol yn gallu talu am athro llanw**

Mae'r hyfforddiant DPP hwn wedi'i gynllunio ar gyfer Athrawon Celf a Dylunio Ysgolion Uwchradd sydd â diddordeb mewn ehangu arbenigedd neu ddiddordeb cyfredol mewn Celf, Crefft a Dylunio mewn addysg. Bydd cyfranogwyr yn gallu cymhwyso eu dysgu yn eu harfer proffesiynol a thrwyddo.

Bydd y diwrnod DPP yn cynnig dulliau creadigol a chymorth i athrawon ddatblygu eu harferion dysgu eu hunain. Cyfle i weithio'n uniongyrchol ag artistiaid/gwneuthurwyr ac addysgwyr celf eraill i edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â gwaith celf, cyflwyno syniadau creadigol newydd i ehangu arferion yr ystafell ddosbarth a chyfle i rwydweithio a rhannu eu harbenigedd ag athrawon eraill.

Mae 3 elfen i'r diwrnod hyfforddi

- **Adnoddau** – Sut i fanteisio ar arddangosfeydd Canolfan Grefft Rhuthun a'i hadnoddau fel offeryn dysgu gwahanol o ysbrydoliaeth ac ymchwil critigol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.
- **Gweithdy ymarferol** – Cyfle i archwilio, i arbrofi a datblygu sgiliau a dulliau ymarferol drwy wneud. (Gweithdy ymarferol dan arweiniad Dr Nigel Hurlstone, Uwch Ddarlithydd yn Ysgol Gelf Manceinion i archwilio ffyrdd gwahanol o arlunio y gellir eu haddasu ar gyfer grwpiau o bob oed).
- **Adlewyrchu** – cyfle i rwydweithio a rhannu arferion da ag athrawon eraill

#### Amserlen y diwrnod

9.00am – Te a Choffi a chyfle i rwydweithio

9.20am – Croeso gan Sioned Phillips, Swyddog Addysg, Canolfan Grefft Rhuthun a Iwan Williams, EDAU

9.30am – Gweithgaredd oriel â'r Artist a'r Addysgwr Mai Thomas 'Celfyddydwaith fel adnoddau'

11.00am – Seibiant byr

11.10am – 'Gwthio ffiniau arlunio' Gweithdy Rhan 1 â Dr Nigel Hurlstone

12.30pm – Cinio

1.00pm – ‘Gwthio ffiniau arlunio’ Gweithdy Rhan 2 â Dr Nigel Hurlstone

3.00pm Adlewyrchu a rhannu arferion gorau (â the a choffi)

Cyfle i athrawon, addysgwyr ac artistiaid rannu syniadau a rhwydweithio dan arweiniad Iwan Williams, EDAU

3.45pm – Dosbarthiad pecynnau adnoddau AM DDIM ar gyfer ysgolion gan Ganolfan Grefft Rhuthun, Diwedd

Os hoffech wybodaeth bellach neu os hoffech eich bwcio eich hun ar y cwrs DPP cysylltwch â Sioned Phillips, Swyddog Addysg drwy e-bostio [sirddinbych.gov.uk](mailto:sirddinbych.gov.uk) neu ffonio 01824 704 774

